

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

### 14EG MAWRTH 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **PRESENNOL** – Gwyndaf Roberts (Cad), Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Barry Bracegirdle, Judith Humphreys, Justin Davies, Erfyl Williams (Penygroes), Dafydd Thomas (Nebo), Harry Owen, Gareth Jones, Siân Dafydd (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

**YMDDIHEURIADAU** – Ceri Owen, Dylan Herbert (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle), Peter Bridges (Talysarn).

2. **DATGAN BUDDIANT** – Nid oedd neb yn datgan.

3. **CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 14EG CHWEFROR** – Cynigiodd Barry ac eiliodd Hefina bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWY NEDD** - Safle Bws Penygroes - adroddodd Harry ei fod wedi derbyn y trims a bod yna bedwar darn o Perspex ar gael - Justin yn cytuno i gymryd y trims gan Harry ac yna trefnu i gyfarfod â Designer Signs i drafod ymhellach i gael y gwaith ar drwsio'r safle wedi ei wneud.

5. **SAFLE TALDRWST, LÔN DDŴR, LLANLLYFNI** - teimlai Gwyndaf na all gadeirio y rhan hwn o'r cyfarfod yn dilyn materion a oedd wedi codi ers y cyfarfod diwethaf. Cynigiodd Barry i Siân gadeirio ac eiliodd Hefina - cytunodd Siân a rhoddwyd y mater drosodd iddi. Esboniodd bod llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn y cyfarfod llawn ddiwethaf ynglŷn â barn a roddwyd gan y cadeirydd ar beth oedd yn meddwl a oedd wedi digwydd yn y ddamwain ar Lôn Ddŵr. Darllenodd Siân y llythyr ac esboniwyd bod cyngor wedi ei gael gan Un Llais a oedd yn dweud bod gan bawb yr hawl i leisio barn ar faterion ac nad oeddynt yn gweld bod yna unrhyw gôd ymddygiad wedi ei dorri ac nad oedd yn ofynnol i'r cadeirydd ymddiheuro am beth ddywedodd. Trafodwyd y mater a rhoddwyd cyfle i bawb roi sylw os oeddynt eisiau. Gofynnwyd a oedd Gwyndaf am ymddiheuro a meddyliai nad oedd rhaid yn dilyn o gyngor Un Llais. Cynigwyd i'r clerc ddrafftio llythyr i'w yrru yn ymateb i'r llythyr gan yr aelod o'r cyhoedd yn egluro a bod y llythyr yn cynnwys mai rhoi ei farn personol oedd Gwyndaf ac nid barn y Cyngor Cymuned ydoedd. Hefyd esbonio beth oedd cyngor Un Llais a nod oedd côd ymddygiad wedi ei dorri. Egluro hefyd nad oes modd tynnu beth a gofnodwyd allan o'r cofnodion. Angen i'r clerc yrru'r llythyr i bawb ei weld cyn ei yrru. Yn dilyn o hyn trafodwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r llythyr a yrrwyd iddynt yn dilyn o'r cyfarfod diwethaf. Roedd pawb wedi derbyn copi o'r llythyr hwn i edrych drosto cyn y cyfarfod. Cynigiodd Justin y dylid gyrru'r ymateb hwn i bawb o'r cyhoedd a oedd wedi e-bostio gyda chwynion ynghyd â'r llythyr a yrrwyd iddynt gan y Cyngor Cymuned. Siân o'r farn bod hyn uwchben beth all y Cyngor Cymuned ei wneud. Eiliodd Barry gynnig Justin ond hefyd nodi ein bod yn cadw golwg ar y sefyllfa - eiliodd Siân hyn. Cynigiodd Judith yn ddibynnol ar yr ymateb i hyn i fynd ar mater yn uwch - efallai'r senedd? Eiliodd Barry a Harry a chytunodd pawb yn unfrydol.

6. **ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** – Roedd adroddiad wedi ei dderbyn ymlaen llaw gan Cyng. Peter Thomas. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd iddo am ei waith.

7. **MATERION PENTREFI - TALYSARN** - Adroddodd Harry nad oedd neb wedi bod yn rhoi silicon yn yr ystafelloedd newid fel y gofynnwyd mis diwethaf - gofyn i'r clerc gysylltu i'w atgoffa i fynd yno cyn

gynted â phosib. Y dŵr dal yn llifo ar Ffordd Rhiwlas - esboniodd y clerc ei bod wedi cysylltu â Dŵr Cymru a'u bod wedi adrodd yn dweud eu bod wedi bod allan yn asesu ac nad oeddynt yn gweld dim byrst yno. **PENYGroes** - Stryd Fawr wedi ei 'patchio' ond angen gofyn os mai dros dro yw hyn ac os yw'r ffordd yn mynd i gael ei atgyweirio yn iawn yn fuan yn y dyfodol. Judith wedi derbyn cwynion ynglŷn â loriau yn teithio drwy Benygroes lawr o Garmel, Judith am edrych fewn i hyn. **NEBO** - Penisarlon rhwng Bryn Gwyn a'r pentref yn torri fyny a thyllau ofnadwy yno bellach. **LLANLLYFNI** - Beth sy'n digwydd gyda'r arwydd SAT NAV? Esboniodd y clerc nad yw'r swyddog o'r cyngor yn gwybod am le mae yn sôn felly dywedodd Gwyndaf wrth y clerc ofyn iddo gysylltu gydag o ac mi wnaiff ei gyfarfod ar y safle i esbonio. Draen yn Felin Gerrig wedi suddo ar draws y lôn ac angen ei llenwi fewn. Y twll ar Lôn Ddŵr - maent wedi bod yno heddiw yn ei farcio - angen cadw golwg ar y sefyllfa.

**8. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU** - Bu i is-bwyllgor mynwentydd gyfarfod ar 9fed Mawrth er mwyn trafod y prisiau claddedigaethau. Esboniodd Gwyndaf beth drafodwyd a bod cynnig wedi dod i godi'r prisiau i gyd 5% a hefyd gwaredu o'r ffi gosod carreg fedd a'i roi ar ben y ffigwr terfynol ar gyfer pob adran yn y claddedigaethau. Adroddwyd wedyn beth fuasai'r prisiau newydd. Penderfynwyd yn yr is-bwyllgor i holi barn y cyngor llawn ynglŷn â'r ffi ymchwil ac yn dilyn trafodaeth cynigiodd Barry i osod y ffi ymchwil ar £30, eiliodd Erfyl a chytunodd pawb. Cynigiodd Siân fod y cyngor llawn yn derbyn argymhellion yr is-bwyllgor am y prisiau claddedigaethau a chytunwyd yn unfrydol. Y prisiau newydd i ddod i rym ar 1af Ebrill 2023 a'r clerc i yrru'r rhain i bob ymgymwrwr a'i roi ar wefan y cyngor hefyd.

**9. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - Roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb hyd at 28ain Chwefror 2023 i edrych arni cyn y cyfarfod. Eglurodd Gareth fod tua £9000 i fynd allan eto'r mis hwn ac felly rhagweld tanwariant o tua £10,000 yn y flwyddyn 2022/23. Esboniodd bod y tanwariant oherwydd nad oedd prosiectau mawr wedi cymryd lle er enghraifft y Clwb Ieuenctid a gwaith trwsio'r safle bws. Awgrymodd y buasai yn syniad cynnal is-bwyllgor cyllid ar ddechrau Ebrill i drafod y sefyllfa at 2023/24. Diolchwyd i Gareth am ei waith.

**10. LLWYBRAU A MYNWENTYDD** - Adroddwyd bod y mynwentydd wedi eu torri heddiw yn barod at Sul Y Mamau. Yn anffodus pobl dal yn llechio sbwriel yn fynwent Gorffwysfa - awgrymwyd efallai yn syniad cael arwydd yn y gornel fel yr un sydd yn Macpela, cytunwyd a'r clerc i holi am bris ar gyfer hyn gan Designer Signs.

**11. PRYDLES CWTÎN** - Adroddodd Siân ei bod wedi paratoi cais drafft i gofrestru tir Cwtîn yn enw'r Cyngor Cymuned a bydd yn costio oddeutu £30 i gofrestru a £4 am ymchwiliad. Diolchwyd i Siân am ei gwaith gyda hyn a phenderfynwyd yn unfrydol iddi barhau gyda'r cofrestru. Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Orsaf yn dilyn cyfarfod mis diwethaf gyda'r awgrymiadau i newid ar y brydles ac wedi gofyn iddynt ddod nôl erbyn y cyfarfod hwn gyda drafft newydd, ond heb dderbyn dim byd.

**12. CAIS AM ARIAN** - Llythyr wedi ei dderbyn gan Farchnad Llew yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned. Trafodwyd y mater ac roedd pawb o'r un farn na ellid cyfrannu gan fod dyddiad cau'r cyfraniadau wedi bod a'r arian am y flwyddyn wedi ei rannu a phrosiectau eraill wedi eu gwrthod am yr un rheswm. Yn yr un modd mi oedd cais wedi dod fewn gan Wŷl Cofio Cledwyn am gyfraniad - eto penderfynwyd gwrthod y cais. Dywedodd Justin y buasai yn esbonio wrth y pwyllgor am hyn.

**13. CEISIADAU CYNLLUNIO** – C23/0113/22/DT – Ardre, 25 Ffordd Clynnog, Penygroes – dymchwel estyniad deulawr cefn presennol ac adeiladu estyniad unllawr a deulawr cefn i'r eiddo – DIM GWRTHWYNEBIAD.

C23/0158/22/DT – 1 Fron Dirion, Nebo – Estyniad deulawr at ochr adeilad – DIM GWRTHWYNEBIAD.

C23/0147/22/DT - Tir i gefn 59 Stryd Fawr, Penygroes - adeiladu sied o fframwaith dur gyda chladin proffil dur a gosod paneli haul cysylltiol - yn dilyn trafodaeth os oedd maint y sied am fod yn rhy fawr penderfynwyd nad oedd DIM GWRTHWYNEBIAD.

**14. GOHEBIAETH** – Nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei yrru dros y mis.

**15. MATERION ARIANNOL** - Trafodwyd a phenderfynwyd talu'r canlynol.

- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00**
- Ifan ac Idris, contractwyr – 5640.00+1128 (TAW) = **£6768.00**
- Zurich – yswiriant = **£1711.06**
- UnLlais – aelodaeth = **£768.00**

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.